# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Mehefin 12fed 2024

**Presennol**

Cyng D.Morris, G.Jones, S.Roberts,C.Dixon a S.Jones.

**Ymddiheuriadau**

Cyng D.Griffiths a G.Hughes.

**Cofnodion Mai 2024.**

Cynnigodd Cyng C.Dixon fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng D.Morris

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

Mae'r sbwriel ar yr A470 Gelligemlyn wedi cael ei gasglu.

Arwyddion gyrru- Nid yw'r Asiantaeth Cefnffyrdd wedi mynychu'r ardal leol i glirio'r malurion / dail sy'n cwmpasu'r arwyddion terfyn cyflymder ac nid yw wedi cydnabod nac ymateb i'r negeseuon e-bost a anfonwyd gan y cyngor ynglŷn â'r mater hwn.

Cynghorwr Sir.

Ddim yn bresennol.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Mai 2024.

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £3545.85 |

Derbyniwyd:

| | |
|---|---|
| Praesept | £1625.00 |
| Rhodd M.Ward | £250.00 |

Taliadau:

| | |
|---|---|
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £5.40 |
| Neuadd y pentref | £350.00 |
| Un Llais Cymru | £35.00 |
| Yn y Banc diwedd mis | £4930.45 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

**Cynllun hyfforddiant.**

Derbyniodd y cynghorwyr y cynnigion a nodir yng nghynllun hyfforddi 2024-25.

Bydd y clerc yn trefnu eu bod yn cael cyrsiau sy'n ymwneud â'u rolau o fewn y cyngor.

**Llythyrau & E.bost.**

Cais cynllunio NP5/60/130D 2, Bryn Goleu, Ganllwyd.

Trafododd y cyngor y cais hwn ac ar ôl adolygu ei gynnigion ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau.

**Unrhyw fater arall.**

Mae'r cyngor wedi derbyn gwybodaeth gan Graeme Stringer CNC yn ymwneud â chyfleuster newydd yng Nghoed y Brenin sy'n cael ei adnabod fel "Llwybrau Tramper". Bydd y cyngor yn gwahodd Mr Stringer i'n cyfarfod nesaf i drafod y cynllu newydd.